Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Beth yw hawliau plant?

## Ydych chi wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn?

Rhestr o hawliau yw'r Confensiwn sydd gan bob plentyn 0-18 oed.

Mae hawliau yn sicrhau ein bod ni i gyd yn cael ein trin yn deg, yn gallu cyflawni ein potensial ac yn gallu codi ein llais. Mae gan blant hawliau ychwanegol i oedolion, am fod angen amddiffyniad ychwanegol arnynt a'u bod yn ddibynnol iawn ar yr oedolion o'u cwmpas. Er mwyn sicrhau hawliau plant, dylai'r oedolion hyn ystyried yr hyn sydd orau i fabanod a phlant ifanc yn eu bywydau o ddydd i ddydd, i wneud yn siŵr eu bod yn cael mwynhau eu hawliau a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel.

Yn y pen draw, mae'n ymwneud â'r hyn sydd ei angen ar bob plentyn i dyfu i fod **yn Hapus, yn Iach ac yn Ddiogel.**

Nid rhywbeth i osod gofynion ychwanegol arnoch chi yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Nid yw chwaith yn golygu y gall plant wneud beth bynnag maen nhw ei eisiau pryd bynnag maen nhw eisiau! Yn hytrach, mae'n rhoi'r ddealltwriaeth a'r gefnogaeth ichi i sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

## Cefnogi fy Hawliau - Edrychwch arna i nawr! (2-3 blwydd oed)

Dw i'n dysgu ac yn archwilio sut mae fy nghorff, pethau a phobl yn gweithio

Gwyliwch fi, i geisio deall beth dw i'n ei ddweud neu'n ei deimlo

Dw i'n ei chael yn haws siarad a chwarae gydag oedolyn dw i'n ei nabod ac yn ymddiried ynddo

Dewch i mewn i 'fy myd'

Rhowch amser a lle imi chwarae, dyna fy myd



Cymerwch ddiddordeb go iawn yn yr hyn sydd gen i i'w ddweud neu ei rannu

Dw i'n dechrau meddwl am yr hyn dw i'n ei hoffi ac nad ydw i'n ei hoffi

Mae fy nghorff yn llawn teimladau mawr, weithiau mae angen eich help arna i

Gall newid fod yn frawychus imi

OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG48481